# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2017-2018

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **23 Mai 2018.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Andrea Lewis | **Adran Etholiadol:** | Treforys |

| | |
|---|---|
| **Swydd Cyflog Uwch:** | Aelod y Cabinet - Gwasanaethau Tai, Ynni ac Adeiladu |

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Cynlluniau a gyflwynwyd ar draws Treforys yn 2017/18 - Gwnaethom gyflwyno nifer o gynlluniau ar draws y ward, gan wrando ar eich ceisiadau, eich pryderon a'ch problemau, gan gynnwys y canlynol:-

- Blodau gwyllt ac arddangosfeydd blodau ar draws ward Treforys;
- Trefnu ac ariannu Cynnau Goleuadau Nadolig Treforys ar gyfer 2017. Eleni roeddem wedi dyblu hanner y goleuadau Nadolig ar y colofnau goleuadau ar Stryd Woodfield ac, fel y blynyddoedd blaenorol, wedi trafod yn rheolaidd â phrif swyddogion y cyngor, y Tabernacl yn Nhreforys, Forest Traffic Services, Gwasanaeth Tân Treforys, Heddlu De Cymru, The Wave, Marchnad y Nadolig, Côr Phoenix, Côr Menywod Treforys, Ambiwlans Sant Ioan, Ysgol Uwchradd Treforys ac ysgolion cynradd Treforys. Gyda diolch arbennig i Kev Johns a Belle a'r holl deuluoedd a gymerodd ran yn yr orymdaith lusernau.
- Arwydd ffordd newydd a mainc newydd ar Heol Bwllfa a Heol Plascadwgan ac arwydd "dim ffordd drwodd" ar Stryd Tirpenry
- Problemau parcio ger siopau Cwmrhydyceirw - yn ogystal â'n hymrwymiad blaenorol i fynd i'r afael â pharcio anystyriol yn agos at y siopau, roeddem wedi ariannu rheilen warchod ychwanegol ar y groesfan i gerddwyr o Gyllidebau Cymunedol Cynghorwyr yn dilyn pryderon am ddiogelwch preswylwyr a phlant wrth ddefnyddio'r groesfan
- Arwydd fflachiog ar Heol Maes Eglwys a chael gwared ar y rhwystrau gosod ar Heol y Fran
- Wedi parhau i weithio'n agos gyda Heddlu De Cymru er mwyn ceisio datrys problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol ar Heol Woodfield gan fynd i nifer o gyfarfodydd PACT
- Rydym wedi cynnal cymorthfeydd wythnosol bob bore dydd Sadwrn yn Llyfrgell Treforys

## Rhan 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr adran etholiadol.

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.
Gallwch weld penodiadau'r cynghorydd i gyrff allanol yma.

Yn ogystal â'm rolau â'm dyletswyddau fel Cynghorydd ward, mae dyletswyddau portffolio'r Cabinet yn cynnwys:- Tai Cydweithredol; Gwasanaethau Adeiladau Corfforaethol; Rheoli Tai'r Cyngor; Atgyweiriadau Tai'r Cyngor; Cynlluniau Gwresogi Ardal; Ynni; Trafnidiaeth Werdd a Mabwysiadu Cerbydau Gwyrdd (gan gynnwys gwaith isadeiledd); Digartrefedd a Chefnogi Pobl; Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer (y Fargen Ddinesig); Cynlluniau Addasu ac Adnewyddu Tai; Polisi Tai, Tai Fforddiadwy ac Opsiynau Tai; Elfennau Arweiniol Abertawe Gynaliadwy; Cyflwyno Rhagor o Gartrefi; Lleihau Tlodi; Tai Lloches; Gorfodi Amodau Tenantiaethau; Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)

Yn ystod 2017-2018, rydw i wedi gweithio'n helaeth ar feysydd cyflwyno o fewn fy mhortffolio, dyma rai o uchafbwyntiau'r flwyddyn ddiwethaf. Mae ein tai cyngor cyntaf mewn bron i 4 degawd (10 cartref teuluol dwy ystafell wely ac 8 o fflatiau un ystafell wely sy'n bodloni safonau "Passivhaus") bellach wedi'u llenwi ar Colliers Way. Rydym hefyd wedi gwneud cynnydd da ar ein hail safle peilot ym Mharc yr Helyg yng Ngellifedw. Rydym wedi gwneud cais am gyllid gan Lywodraeth Cymru (IHP2) er mwyn ariannu paneli solar a mannau storio batris ar gyfer y tai hyn, a allai olygu eu bod yn creu mwy o ynni nag y byddant yn ei ddefnyddio dros y flwyddyn, a'u bod wedi'u hadeiladu i fodloni Safon Abertawe wrth ddefnyddio model Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer (y Fargen Ddinesig), gan ddefnyddio ein gweithlu uniongyrchol. Gwnaeth y Gwasanaethau Adeiladau Corfforaethol waith gwych ar ein safle peilot cyntaf. Mae'r datblygiad hwn hefyd yn cefnogi darpariaeth prentisiaethau er mwyn helpu i ddatblygu ein cenhedlaeth nesaf o grefftwyr ifanc.

- Roeddem wedi parhau i wneud cynnydd sylweddol o ran rhaglen datblygu ehangach Rhagor o Gartrefi a fydd yn helpu i lywio sut rydym yn datblygu safleoedd y cyngor yn y dyfodol i gyflwyno tai fforddiadwy mawr eu hangen yn Abertawe.
- Rydym yn parhau â'r buddsoddiad mawr o £169.5m (rhwng nawr a 2020) er mwyn codi safon ein tai cyngor i fodloni Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), gan ddefnyddio'r Cyfrif Refeniw Tai. Mae'r rhaglen yn darparu gwaith megis ceginau newydd, ystafelloedd ymolchi, boeleri a gwaith gorchuddio er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni ein cartrefi er lles tenantiaid y cyngor.
- Roeddem wedi hyfforddi tîm mewnol i ddechrau gwaith ôl-osod ar gyfer ein rhaglen gosod taenellwyr yn ein blociau uchel.
- Gyda chymorth gan Dîm Digwyddiadau'r Cyngor, cynhaliwyd ein hail Sioe Deithiol Aer Glân yn hyrwyddo cerbydau dim allyriadau carbon. Cafodd y digwyddiad ei gefnogi gan ein partneriaid sectorau cyhoeddus a phreifat yn ogystal â gwneuthurwyr ceir masnachol. Rydym hefyd wedi ehangu ein cerbydlu o gerbydau trydan corfforaethol ac rydym yn gweithio ar hyn o bryd ar ein Polisi Cerbydlu Gwyrdd Corfforaethol.
- Rydym wedi parhau i gyflwyno ein Strategaeth Ynni Gorfforaethol a'n Strategaeth Lleihau Carbon ac ar hyn o bryd rydym yn ystyried sefydlu cwmni ynni hyd fraich o'r cyngor.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Digwyddiad Cynnau Goleuadau Nadolig 2017 - Gweithiodd cynghorwyr Treforys gyda'i gilydd i drefnu a chyflwyno ail ddigwyddiad cynnau'r goleuadau Nadolig yn Nhreforys ar Stryd Woodfield a oedd yn llwyddiant ysgubol eto. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cefnogi'r digwyddiad gan gynnwys y plant, teuluoedd, ysgolion a busnesau lleol. Roedd teimlad cryf o ysbryd cymuned Treforys fel arfer, ac rydym yn edrych ymlaen at wneud y cyfan eto blwyddyn nesaf ☺

Arddangosfeydd Blodau - Trefnodd Cynghorwyr Treforys arddangosfeydd blodau a blodau gwyllt helaeth trwy ward Treforys.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Gallwch weld hyfforddiant cynghorwyr yma.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn un brysur iawn, wrth i mi ddelio â llawer o faterion ward ar ran preswylwyr Treforys. Mae rhai o'r rhain yn cynnwys tipio anghyfreithlon, materion parcio, materion tai a delio ag amrywiaeth o bryderon eraill.

Cynhaliais gymorthfeydd cynghorydd, ar sail rota, gyda'm cydweithwyr ward, yn Llyfrgell Treforys, bob bore Sadwrn o 10am tan 12 ganol dydd.

Roeddwn (ac rwy'n parhau i fod) yn aelod o fwrdd y neuadd goffa. Rydw i wedi mynychu cyfarfodydd PACT yn rheolaidd a nifer o gyfarfodydd cyhoeddus ac wedi mynychu cyfarfodydd fel Is-gadeirydd llywodraethwyr Ysgol Gynradd Treforys ac fel llywodraethwr yn Ysgol Gyfun Treforys yn rheolaidd. Euthum i gyfarfodydd Gweithrediaeth a Grŵp Llafur rheolaidd. Roeddwn ac rwy'n parhau i fod yn Ysgrifennydd Grŵp Llafur Dinas a Sir Abertawe.

Roeddwn (ac rwy'n parhau i fod) yn Gadeirydd Fforwm Strategol ar gyfer Trawsnewid Gwasanaethau'r Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus.

**Rhan 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Uwch-gyflog (Aelod y Cabinet): £32,100

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma.
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 11/10/2018 |